Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Beddau**

**Llys Y Cwm**
**Gwaunmiskin Road**
**Beddau**
**CF38 2AU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Beddau

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Beddau |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cliciwch neu tapiwch yma i fewnbynnu testun.Dyma'r arolygiad cyntaf ers y cofrestriad |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.' |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi ymlacio ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Maent yn hyderus ac mae ganddynt ymdeimlad da o berthyn. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn dda. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae. Mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu'n dda.

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith. Roedd y staff yn rhyngweithio'n garedig ac yn gynnes â'r plant. Maent yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant yn dda drwy arsylwadau sy'n bwydo i mewn i gynllunio camau nesaf y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad mewn neuadd ger ysgol gynradd leol. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn fawr sy'n caniatáu dewis llif rhydd i'r plant chwarae dan do a thu allan. Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r plant o ansawdd da ac maent o fewn eu cyrraedd.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth dda ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol. Mae ganddynt weithdrefnau da mewn perthynas â hunanwerthuso ac maent yn adolygu ansawdd y gofal yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio da ac mae trefniadau datblygiad proffesiynol yn barhaus ac yn effeithiol. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, wedi ymlacio ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Maent yn mynd at y staff i gael cymorth a chysur yn hyderus pan fydd angen cymorth arnynt i wisgo cotiau ac mae eraill yn mynd at y staff pan fyddant eisiau iddynt ddarllen stori iddynt. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Maent yn dewis lle maent eisiau eistedd adeg byrbryd ac maent yn dewis yr adnoddau a'r ardaloedd maent eisiau chwarae â nhw yn annibynnol. Caiff anghenion a dewisiadau'r plant eu hystyried a'u gwerthfawrogi. Caiff y rhai sydd ddim yn barod i eistedd gydag eraill yn ystod amser cylch eu parchu i chwarae. Dewisodd y plant i gael eu blancedi cysur pan oeddent yn blino. Cawsant eu parchu i'w cael.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac mae ganddynt ymdeimlad da o berthyn. Maent yn gwybod eu harferion yn dda, megis tacluso a golchi dwylo cyn amser byrbryd. Mae'r plant yn ffurfio cysylltiadau agos â'r staff ac yn eistedd yn hapus ar eu gliniau neu'n eistedd yn agos atynt yn ystod amseroedd stori a chanu. Mae'r plant yn datblygu hunan-barch da. Roeddent yn dangos eu gwaith paentio yn falch i'r staff ac roedd eraill yn dathlu eu bod wedi gwneud pryd bwyd i'r staff yn yr ardal chwarae rôl cegin.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn dda. Mae'r plant yn dangos parch a charedigrwydd tuag at eraill drwy rannu'n dda. Er enghraifft, roeddent yn sicrhau bod gan eu ffrindiau sosbenni, bwyd a chyfarpar pan oeddent yn chwarae gyda'i gilydd yn ardal chwarae rôl cegin. Mae'r plant yn dangos tosturi tuag at eraill. Maent yn canmol cyflawniadau ei gilydd drwy floeddio pan fyddai eraill yn cyrraedd eu nodau, megis gyrru eu ceir a'u beiciau a gorffen eu gwaith paentio.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae. Buont yn canolbwyntio am gyfnod hir o amser yn gwrando ar straeon yn yr ardal ddarllen dawel ac roeddent yn ateb cwestiynau am y cymeriadau yn y llyfr. Mae'r plant yn gyffrous yn eu chwarae. Roeddent yn defnyddio ffyn lolipop, gwlân cotwm, brwshys paent ac adnoddau eraill yn gyffrous i baentio ar ddarn mawr o ddefnydd ac ar hambwrdd twff. Mae'r plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd ac yn cymryd eu tro. Roeddent yn gyrru eu ceir a'i beiciau yn eiddgar, yn dilyn traciau sialc ac yn cael ras. Mae'r plant yn mwynhau arbrofi ac archwilio. Roeddent yn chwarae â theganau cerddorol ac yn mwynhau'r ardal ddringo a'r sleid. Ymgartrefodd y plant a oedd ar eu hymweliad cyntaf i'r lleoliad yn syth ac roeddent yn teimlo'n gyfforddus â'r staff y plant a'u hamgylchedd newydd.

Mae sgiliau annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda wrth iddynt gael cyfleoedd i fod yn annibynnol. Yn ystod amser byrbryd, roedd y plant yn arllwys dŵr a llaeth i'r cwpanau a llaeth i bowlenni eu grawnfwyd. Roedd y rhai a oedd yn gallu gwisgo côt yn annibynnol yn gwneud hynny'n hawdd, ac roedd rhai plant yn cael cymorth gan y staff.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith. Mae'r staff yn sicrhau bod pob plentyn yn golchi ei ddwylo cyn bwyta, gan wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol i baratoi bwydydd ac i helpu'r plant. Maent yn gweithredu ac yn cofnodi arferion glanhau dyddiol. Mae'r staff yn sicrhau bod y byrddau wedi'u diheintio cyn i'r plant gael eu bwyd. Maent yn cynnig dewis da ac iachus o ffrwythau, grawnfwydydd, dŵr a llaeth ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o anghenion deietegol ac alergeddau'r plant. Mae'r staff yn dilyn asesiadau risg dyddiol ac mae'r oruchwyliaeth o'r plant dan do ac yn yr awyr agored yn effeithiol gan sicrhau bod yr holl blant yn ddiogel. Roedd y trafodaethau â'r staff yn dangos bod y staff yn deall yr angen am arferion diogelu da, a'u bod yn deall y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai sefyllfa amddiffyn plant neu ddiogelu. Mae'r staff yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau a damweiniau, a chaiff y rhain eu llofnodi gan y staff a'r rhieni.

Roedd y staff yn rhyngweithio'n garedig ac yn gynnes â'r plant. Maent yn ymgysylltu â'r plant mewn modd tawel ac maent yn sgwrsio â nhw am aelodau eu teulu. Mae'r staff yn dangos esiampl dda. Gwnaethon nhw baratoi gweithgaredd yn yr awyr agored gan ddefnyddio croesfan sebra a ffordd i ddangos diogelwch y ffordd. Mae'r staff yn canmol y plant am eu cyflawniadau. Gwnaethon nhw ddiolch i'r plant am dacluso ac am rannu eu llwy yn ystod chwarae rôl; a chanmol y plant am arllwys eu llaeth yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant. Maent yn arsylwi datblygiad cyffredinol y plant drwy chwarae, ac yn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf yn ôl eu galluoedd a'u diddordebau. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gweithredu strategaethau ymddygiad cadarnhaol. Mae'r staff yn hybu'r Gymraeg yn bennaf drwy sgyrsiau am liwiau paent, canu a chwarae; lle roedd y staff yn annog y plant i gyfrif i bump yn Gymraeg, a thrwy ddarllen adeg amser stori. Fodd bynnag, gellid datblygu hyn ymhellach mewn perthynas â sgiliau iaith, mathemategol a datrys problemau a chwestiynu ymhellach gan staff er mwyn gwella chwilfrydedd y plant a'u datblygiad pellach. Mae'r staff yn annog y plant i wisgo cotiau ac i bilio eu ffrwythau megis banana heb gymorth ond yn cael cymorth pan fo angen. Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer anghenion addysgu ychwanegol. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar y 'Cwricwlwm i Gymru' diweddar a'r fframwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae ffens fetel ddiogel o amgylch yr ardal awyr agored. Mae'r giât tu allan ar glo bob amser ac mae system seiniwr i ymwelwyr a rhieni sydd eisiau dod i'r lleoliad. Mae cofnod o ymwelwyr sy'n dod i'r lleoliad ac mae'r staff yn gwirio hunaniaeth yr ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diweddaru asesiadau risg cadarn yn rheolaidd. Maent yn diweddaru gwiriadau cynnal a chadw a gwiriadau tân ac yn cofnodi ymarferion tân rheolaidd.

Mae'r lleoliad mewn neuadd ger ysgol gynradd fwydo. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn fawr sy'n rhoi'r rhyddid i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r amgylchedd yn groesawgar gydag arddangosiadau lliwgar o gyflawniadau'r plant, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r amgylchedd yn rhoi'r preifatrwydd a'r urddas sydd eu hangen i'r plant wrth iddynt newid a mynd i'r toiled. Mae'r cyfleusterau toiledau yn hyrwyddo annibyniaeth gyda chymhorthion megis potiau a grisiau a sebon hylif a thywelion papur ar gyfer golchi a sychu eu dwylo. Mae byrddau a chadeiriau sy'n addas i oedran a chamau datblygu'r plant, ac mae'r plant yn eu defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol megis amseroedd bwyd ac ar gyfer gweithgareddau bwrdd.

Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r plant o ansawdd da ac maent o fewn cyrraedd y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan y plant fynediad at yr adnoddau sy'n hyrwyddo datblygiad iaith, creadigol a chorfforol y plant. Mae ganddynt lyfrau dwyieithog, ystod o adnoddau gwneud marciau a chwarae'n ddychmygus megis cegin fwd a chegin chwarae rôl dan do, chwarae byd bach. Mae adnoddau datblygiad corfforol ar gael dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarpar dringo, beiciau a darnau rhydd. Fodd bynnag, gellid datblygu rhai meysydd mewn perthynas ag adnoddau mathemategol. Mae'r adnoddau hyn yn hyrwyddo diwylliannau ac amrywiaeth, megis llyfrau yn y gornel ddarllen a doliau yn yr ardaloedd chwarae rôl a chwarae byd bach.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth dda ar gyfer dyfodol y gwasanaeth. Maent yn awyddus i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi pellach i'r staff. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau y maent yn eu rhannu ag eraill. Mae'r datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliad, yn bodloni Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn fewnwelediad da i'r hyn a gynigir yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff y cymarebau rhwng y staff a'r plant eu rhagori ac felly caiff anghenion y plant eu diwallu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r staff yn effeithiol er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau dyddiol a'u cyfrifoldebau. Mae cofnodion o bresenoldeb y staff a'r plant sy'n bodloni rheoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu'r adroddiad ansawdd y gofal yn rheolaidd. Maent yn gofyn am safbwyntiau gan rieni a phlant yn rheolaidd ac maent yn gadarnhaol. Mae hyn yn helpu i greu targedau ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio da ac yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd ar waith, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ar gyfer pob aelod o'r staff a'r rhai dan hyfforddiant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau sefydlu amserol, gyda sesiynau goruchwylio rheolaidd yn tynnu sylw at gynnydd a thargedau ar gyfer datblygiad proffesiynol i'r dyfodol. Maent yn cynnal Arfarniadau rheolaidd i'r rheolwyr a'r staff. Mae'r staff yn gymwys ac yn brofiadol. Mae gan bron bob aelod o'r staff gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant ac mae ganddynt dystysgrif arferion hylendid. Mae cydberthynas agos iawn rhwng y staff sydd wedi creu ethos gweithle hapus. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a gwnaethon nhw fynegi eu bod nhw'n teimlo'n rhan o deulu yn y lleoliad a'u bod yn cael gofal bugeiliol da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru yn rheolaidd am newidiadau i'r lleoliad, gan gynnwys newidiadau i'r staff a newidiadau i'r datganiad o ddiben ac i'r datganiad hunanasesu gwasanaeth. Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu â'r rhieni drwy lwyfan cyfrwng cymdeithasol ac maent yn rhannu sylwadau a lluniau yn rheolaidd. Maent yn anfon adroddiadau bob tymor i'r rheini ar gynnydd y plant ac maent yn anfon polisïau drwy e-bost. Mae'r rhieni'n hapus iawn gyda'r lleoliad. Dywedodd y rhieni wrthym *“Staff are excellent, friendly, welcoming, supportive and caring. Managers are lovely and easy to talk to.”* Dywedodd rhieni eraill wrthyym *“My child is always happy going in and coming out, every day. They do fun activities and keep us updated with pictures.”*

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Datblygu'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn hybu datblygiad ieithyddol y plant.

A2 Sicrhau bod pob aelod o staff yn datblygu meddwl a chwilfrydedd y plant yn ystod chwarae a dysgu.

A3 Cynnwys adnoddau sy'n hybu datblygiad mathemategol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/05/2023